No.

# PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 10 Mawrth, 2022

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd G.C. Kemp (Cadeirydd); Cynghorydd R.M. Birch (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr S.J. Griffiths, J.M. Norman, A. Parker, S.M. Perkes a N.C. Thomas

Aelodau cyfetholedig: Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig), L. Barrowclough (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd), G. Scott (Addysg Gymraeg) a C. Williams (Rhiant-lywodraethwr – Sector Uwchradd).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio),

950 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

Gan gyfeirio at y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 10 Chwefror, 2022, roedd y Cadeirydd am ymddiheuro i'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio am y modd yr oedd wedi cyfnewid barn â hi mewn perthynas ag Eitem 4 ar yr Agenda. Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r Cadeirydd a derbyniodd ei ymddiheuriad.

951 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd T.H. Jarvie.

952 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror, 2022 fel cofnod cywir.

953 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

954 MONITRO REFENIW A CHYFALAF 1 EBRILL I 31 IONAWR, 2022 (CDS) -

Diben yr adroddiad oedd hysbysu'r Pwyllgor o'r cynnydd ynglŷn â gwariant refeniw a chyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Ionawr 2021.

O ran refeniw, rhagwelwyd y gallai'r rhagolwg ar gyfer Dysgu a Sgiliau ar ddiwedd y flwyddyn fod yn alldro ar darged ar ôl nifer o drosglwyddiadau gwerth £735k i gronfeydd wrth gefn. Pennwyd targed arbedion ar gyfer y flwyddyn sef £59k a rhagwelwyd y byddai'r arbedion hyn yn cael eu cyflawni'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

Roedd y gyllideb gyfalaf wedi'i gymeradwyo ar hyn o bryd wedi'i phennu ar £38.032m, a nododd yr adroddiad nifer o newidiadau a wnaed i'r Rhaglen Gyfalaf ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd N.C. Thomas ynghylch y ffigurau disgwyliedig yn Chwarter 4, dywedodd Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg y canlynol:

- Byddai'r prif amrywiad yn debygol o gael ei weld yng ngrantiau gan Lywodraeth Cymru, ac roedd yn annhebygol y byddai'r ffigurau canlyniadau yn wahanol iawn i'r rhai a nodwyd yn Chwarter 3.
- Roedd yn debygol y byddai'r gwariant Cyfalaf yn is nag a amlinellwyd yn yr adroddiad oherwydd llithriant gan fod rhai cynlluniau wedi'u hailbroffilio i wyliau'r Pasg.
- Gellid diwygio alldro Addysg hefyd gydag ysgolion yn derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru'n hwyr sy'n arwain at fwy o drosglwyddiadau diwedd blwyddyn i gronfeydd wrth gefn.

Gan nad oedd unrhyw ymholiadau pellach gan yr Aelodau, penderfynwyd

ARGYMHELLWYD - Nodi'r sefyllfa o ran cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

955 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 3 2021/22 (CDS) -

Rhoddodd yr adroddiad wybod am gynnydd y Cyngor yn Chwarter 3 (Ch3) (1 Ebrill, 2021 i
31 Rhagfyr, 2021) tuag at gyflawni ymrwymiadau ei Gynllun Cyflawni Blynyddol (2021/22) (CCB)
sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles ei Gynllun Corfforaethol.

Amlinellodd Atodiad A yr adroddiad berfformiad y Cyngor ar gyfer y cyfnod yn erbyn ymrwymiadau ei CCB ar gyfer 2021/22, cyflwynwyd cyflawniadau a heriau

allweddol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor yn Atodiad B yr adroddiad a chafwyd manylion eithriadau perfformiad yn Atodiad C.

Roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran cyflawni ei ymrwymiadau yn ystod y flwyddyn
mewn perthynas â'i CCB. Roedd y perfformiad hwn wedi cyfrannu at statws Gwyrdd cyffredinol ar gyfer y Cynllun yn Ch3. Gellir crynhoi'r cynnydd a wnaed yn erbyn y 53 cam gweithredu a’r 8 mesur chwarterol a oedd yn benodol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant fel a ganlyn:

• GWYRDD: 45 cam gweithredu (85%) a 4 mesur.
• MELYN: 7 cam gweithredu (13) a 0 mesur.
• COCH: 1 cam gweithredu (2%) a 4 mesur (50%).

O ran y cam gweithredu a’r 4 mesur y priodolwyd statws perfformiad Coch iddynt, nodwyd bod effaith COVID-19 wedi cyfrannu at y cam gweithredu a 3 o’r mesurau.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau hefyd am gynnydd o ran adfer ar ôl y coronafeirws gyda'r cyflwyniad yn tynnu sylw at faterion sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor.
Ar ôl cyflwyno’r adroddiad, ymatebodd Penaethiaid Gwasanaethau’r Gyfarwyddiaeth i ymholiadau’r Aelodau fel a ganlyn:

- Roedd nifer o ffactorau wedi arwain at rai camau gweithredu a mesurau'n cael eu sgorio'n goch, a byddent yn effeithio ar gynnydd o ran eu gwella i wyrdd. Er enghraifft, yn achos unrhyw gamau gweithredu sy’n cael eu mesur yn ôl nifer y cyfranogwyr, roedd cyfyngiadau COVID wedi effeithio'n sylweddol ar allu'r Gyfarwyddiaeth i fwrw targedau.
- Roedd rhai camau gweithredu’n ymwneud â thargedau tymor hwy, er enghraifft y rhai sy'n gysylltiedig ag Anghenion Dysgu a Gynorthwyir mewn ysgolion Cymraeg a oedd yn rhan o’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, cynllun deng mlynedd. Felly, byddai camau gweithredu o'r fath yn cael eu cynnwys mewn Cynlluniau Gwasanaeth perthnasol wrth symud ymlaen i adlewyrchu lle'r oedd cynnydd wedi'i wneud a lle'r oedd angen gwneud cynnydd pellach.
- Mewn rhai achosion roedd targedau'n cyfateb i niferoedd isel iawn, er enghraifft y targed sy'n ymwneud â nifer y disgyblion Blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), ac felly gallai nifer fach o unigolion gael effaith sylweddol ar sgôr COG cam gweithredu. Roedd y targed NEET wedi'i osod ar y lefel honno gan fod y gwasanaeth yn uchelgeisiol i bobl ifanc ac nad oedd am osod targed y gellid ei fwrw’n hawdd.
- Roedd cynllun peilot gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud ag ymestyn y diwrnod ysgol yn rhedeg tan y Pasg, gyda phum ysgol a bron i 1,000 o ddisgyblion yn ardal y Barri yn cymryd rhan. Gan fod y cynllun peilot yn dal i fynd rhagddo, nid oedd unrhyw adborth ffurfiol y gallai Swyddogion ei gyflwyno ar hyn o bryd, ond yn anecdotaidd roeddent yn deall ei fod wedi cael croeso mawr gan yr ysgolion a'r plant dan sylw, ac yn cael ei groesawu gan rieni a oedd yn cydnabod yr angen am y gweithgareddau a'r cyfleoedd ychwanegol a gynigiwyd. Byddai adroddiad ffurfiol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor maes o

law, ac awgrymwyd mai cynrychiolwyr yr ysgolion dan sylw fyddai'n ei gyflwyno orau.

- Yn ogystal â'r cynllun peilot uchod, roedd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch diwygio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni anghenion disgyblion. Roedd mwy o ffocws ar weithredu model gofal 'cofleidiol', gan fod ysgolion yn anelu at roi cymorth i bobl ifanc y tu hwnt i'r diwrnod ysgol.
- Roedd ysgolion y Barri a oedd yn rhan o gynllun peilot Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos iawn, gydag Ysgol Uwchradd Pencoedtre yn cael ei defnyddio'n hyb a ffocws clir ar ddatblygu cymunedol.
- O ran y Dangosydd Perfformiad ar gyfer ymweliadau â Llyfrgelloedd (fel y'i pennwyd gan y Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd), cafwyd sgôr COG goch gan fod presenoldeb corfforol mewn llyfrgelloedd wedi gostwng, ond nid oedd hyn yn dangos y cyfraniad yr oedd llyfrgelloedd wedi'i wneud o ran gwasanaethau a gweithgareddau ar-lein a gynigiwyd, gweithgareddau a gynhaliwyd mewn gwahanol leoliadau i fodloni gofynion COVID,  na'r gwasanaeth clicio a chasglu.
- Cydnabu'r Gyfarwyddiaeth fod cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn werthfawr o ran nodi a thargedu plant a oedd nid yn unig ag anghenion ychwanegol ond a allai fod angen cymorth ychwanegol am resymau eraill, er enghraifft cyfleoedd i fynychu clybiau gwaith cartref neu weithgareddau ar ôl yr ysgol a allai gynnig amgylcheddau gwaith addas. Roedd yn allweddol bod disgyblion a oedd efallai'n cael eu hamser yn yr ysgol yn anodd yn cael eu cynnwys a'u hannog i ragori mewn meysydd lle cafodd eu sgiliau eu gwobrwyo, fel bod yr ysgol yn dod yn lle cadarnhaol i fod ac y gallai eu hunan-barch gynyddu.
- Roedd y Gyfarwyddiaeth yn awyddus i ddatblygu timau pellach i gefnogi pobl ifanc, ac roedd ysgolion yn ceisio gwella cymorth drwy greu rolau cyswllt teuluol a fyddai hefyd yn cysylltu â gwasanaethau ar draws y Cyngor.
- Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal rhwng ysgolion a Swyddogion yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch sut y gallai ysgolion ddod yn hybiau cymorth, nid yn unig i ddisgyblion ond i'w teuluoedd, gydag awgrym y gellid ymgorffori Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn y model.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio, gyda chaniatâd i siarad, am bwysleisio bod ysgolion yn cydweithio nid yn unig â'i gilydd ond gyda'r Cyngor, a bod dull teulu cyfan o gefnogi yn dod yn fwyfwy cyffredin. Tynnodd sylw at y ffaith bod Ysgol St. Cyres wedi dod yn 'Ysgol Noddfa' yn ddiweddar, yr un gyntaf ym Mro Morgannwg, gan gyfeirio at ddisgyblion a oedd yn llythrennol yn chwilio am loches ond hefyd ei dull o gefnogi pobl ifanc gydag unrhyw heriau yr oeddent yn eu hwynebu. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet y gallai buddsoddiad drwy'r Big Fresh Catering Company olygu y byddai arian ar gael ar gyfer cynnig bwyd mewn cynlluniau fel clybiau gwaith cartref, a daeth i ben drwy ddiolch i'r Swyddogion am eu gwaith rhyfeddol wrth gyflawni canlyniadau'r Gyfarwyddiaeth.

Gan nad oedd unrhyw ymholiadau pellach ar y pryd, penderfynwyd

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi’r canlyniadau perfformiad a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 fel y bônt yn alinio ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) Nodi’r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

(3) Nodi’r cynnydd sy'n cael ei wneud drwy strategaeth adfer y Cyngor a chynlluniau Adfer y Gyfarwyddiaeth mewn ymateb i bandemig parhaus y Coronafeirws.

(4) Nodi diolch y Pwyllgor hwnnw i Swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth am eu gwaith caled wrth gyflawni'r canlyniadau a amlinellir yn yr adroddiad.

Rheswm dros yr argymhelliad

(1-4) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

956 CYNLLUNIAU GWASANAETH A PHENNU TARGEDAU I GYFLAWNI CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL 2022/23 (CDS) -

Cyflwynodd yr adroddiad gynlluniau a thargedau gwasanaeth y Cyngor, a oedd yn nodi'r meysydd ffocws penodol sy'n gysylltiedig â chyflawni CCB y Cyngor (Cynllun Gwella Rhan 1) ar gyfer 2022/2023 fel sy’n cyd-fynd â phedwar amcan lles ei Gynllun Corfforaethol (Gwella). Ystyriodd pob Pwyllgor Craffu CCB drafft ym mis Rhagfyr 2021 ac roedd eu barn ochr yn ochr â barn rhanddeiliaid allweddol eraill wedi llywio'r Cynllun terfynol, a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 28 Chwefror, 2022 a'r Cyngor Llawn ar 7 Mawrth, 2022.

Adlewyrchwyd yr ymrwymiadau yn y CCB yn y Cynlluniau Gwasanaeth, i’w gweld yn Atodiad A yr adroddiad, ynghyd â thargedau gwella gwasanaethau arfaethedig, i’w gweld yn Atodiad B yr adroddiad, i ddangos sut y byddai gwasanaethau unigol yn cyfrannu at gyflawni pedwar Amcan Lles y Cyngor yn gyffredinol.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn,

ARGYMHELLWYD –

(1) Cymeradwyo’r Cynlluniau Gwasanaeth (sydd wedi'u hatodi yn Atodiad A i'r adroddiad) a'r holl weithgareddau arfaethedig fel y maent yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor hwn (fel y dangosir yn Atodiad C i'r adroddiad).

(2) Cymeradwyo’r targedau arfaethedig ar gyfer gwella gwasanaethau ar gyfer 2022/2023 (sydd wedi'u hatodi yn Atodiad B i'r adroddiad) sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor hwn.

Rheswm dros yr argymhelliad

(1) Sicrhau bod y Cynlluniau Gwasanaeth sy'n cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor hwn yn gywir, yn gyfredol ac yn berthnasol a'u bod yn dod yn brif ddogfen ar gyfer monitro a mesur perfformiad yn erbyn Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cynllun Corfforaethol yn ystod 2022/2023.

(2) Sicrhau bod Fframwaith Mesur Perfformiad Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn nodi set berthnasol o fesurau a thargedau perfformiad y gellir monitro a mesur y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn eu herbyn yn ystod 2022/2023.

957 ADRODDIAD ARGYMHELLIAD AR GYFER Y GRWP TASG A GORFFEN COST YR YSGOL (PW) -

Diben yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ganfyddiadau'r Grŵp a cheisio cymeradwyaeth i'r Canllawiau Arfer Da drafft (i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad) gael eu hatgyfeirio i'r Cabinet i'w cymeradwyo.

Sefydlodd y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant Grŵp Gorchwyl a Gorffen ym mis Ionawr 2020 i adolygu'r costau i rieni a gofalwyr o anfon eu plant i'r ysgol. Wedi hynny, roedd y Grŵp wedi clywed tystiolaeth gan ddisgyblion a oedd yn mynychu ysgol ym Mro Morgannwg, rhieni yr oedd eu plant yn mynychu amrywiaeth o Ysgolion Bro Morgannwg, a Swyddogion Awdurdod Lleol a fu'n ymwneud â mynd i'r afael â heriau o ran fforddiadwyedd addysg, allgáu digidol ac urddas mislif, yn enwedig yng ngoleuni effaith Pandemig COVID-19.

Crynhodd yr adroddiad waith a wnaed gan y grŵp a chyflwynodd ddrafft o'r Canllawiau Arfer Da a awgrymwyd yn seiliedig ar ei ganfyddiadau. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor a'r Cabinet, argymhellodd yr adroddiad y dylid dosbarthu'r Canllawiau Arfer Da drafft i Gyrff Llywodraethu a Phenaethiaid holl ysgolion Bro Morgannwg.

Ar ôl i'r Cadeirydd gyflwyno'r adroddiad, dywedodd yr Aelodau o'r Grŵp fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud, a'u bod yn teimlo bod barn y disgyblion, y staff a'r rhieni fel y'i clywyd gan y Grŵp wedi'i chynrychioli'n dda yn y Canllawiau. Roedd yr Aelodau'n gobeithio y byddai'r Canllawiau'n cynnig syniadau amgen i ysgolion ynghylch sut i liniaru costau addysg ac yn anghefnogi unrhyw bolisïau a fyddai'n gwaethygu'r mater.

Awgrymodd y Cynghorydd R.M. Birch y dylid ailedrych ar y mater yn flynyddol er mwyn i'r Pwyllgor gael gwybod a oedd cyrff llywodraethu wedi cymryd sylw o'r Canllawiau a gyhoeddwyd, ac i gynnig cyfle iddynt ymateb iddynt pe dymunent. Nododd y Cadeirydd fod nifer o Aelodau o'r Pwyllgor yn eistedd ar gyrff llywodraethu mewn gwahanol ysgolion, ac y byddai'n ddiddorol iddynt weld sut y derbyniwyd y Canllawiau.

Gyda chaniatâd i siarad, diolchodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio i'r Pwyllgor am yr adroddiad manwl ac adeiladol a dywedodd y byddai'n falch iawn o

fynd ag ef i'r Cabinet pe bai hynny'n argymhelliad gan y Pwyllgor. Ychwanegodd ei bod yn cyfarfod yn aml â rhwydwaith o gynghorau ysgolion uwchradd ac awgrymodd y gellid ychwanegu'r adroddiad at agenda ar gyfer trafodaeth y rhwydwaith er mwyn gallu cael adborth yn uniongyrchol gan ddisgyblion ynghylch a oedd y Canllawiau'n cael eu gweithredu ai peidio.

Ar ôl ystyried a thrafod yr adroddiad a’r Canllawiau’n llawn,

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi cynnwys yr adroddiad, a chymeradwyo’r Canllawiau Arfer Da drafft (sydd wedi'u hatodi yn Atodiad A i'r adroddiad) yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor.

(2) Cyfeirio’r adroddiad a'r Canllawiau Arfer Da drafft, fel y'u cymeradwywyd gan y Pwyllgor, at y Cabinet i'w hystyried a'u cymeradwyo.

(3) Dosbarthu’r Canllawiau Arfer Da, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, i bob Corff Llywodraethu a Phennaeth yn ysgolion Bro Morgannwg a'u gwneud ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

(1) Er mwyn i'r Pwyllgor allu ystyried canfyddiadau'r Grŵp a chytuno ar gynnwys unrhyw Ganllawiau i'w cyfeirio at y Cabinet ar y cyd.

(2) Er mwyn i'r Cabinet allu ystyried y Canllawiau Arfer Da y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a phenderfynu a ddylid cymeradwyo'r Canllawiau i'w dosbarthu ymhellach.

(3) Er mwyn sicrhau bod Canllawiau Arfer Da ar gael i ysgolion a thrigolion Bro Morgannwg, a bod teuluoedd yn cael cymorth i liniaru'r baich ariannol sy'n gysylltiedig â chost addysg.